**S4C** /

Cylch Gorchwyl

# Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cymeradwywyd: Mawrth 2026 (Adolygwyd: Mawrth 2026; Adolygiad nesaf: Mawrth 2028)

**Pwrpas**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) mewn perthynas â threfniadau rheolaeth fewnol a sicrwydd y sefydliad. Mae'n atebol i'r Bwrdd.

## Aelodaeth a Phresenoldeb Eraill

Aelodau (3 aelod)

- Aelod Anweithredol, o blith aelodau'r Bwrdd (i gadeirio)
- 2 Aelod Anweithredol

Cworwm: 2 aelod.

Penodir aelodau'r Pwyllgor gan y Bwrdd, yn unol â'r aelodaeth uchod.

Gellir cyfethol hyd at un aelod anweithredol nad ydyw'n gwasanaethu ar y Bwrdd lle bod hynny'n ddymunol er mwyn sicrhau cydbwysedd sgiliau addas ymhlith aelodaeth y Pwyllgor.

Ni ddylai fod gan aelodau'r Pwyllgor gyfrifoldeb gweithredol dros reoli S4C.

Ni ddylai Cadeirydd y Bwrdd fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu o bryd i'w gilydd (o leiaf bob dwy flynedd) sgiliau, profiad a chymhwysedd ei aelodau, gan nodi unrhyw fylchau i'r Bwrdd fel bo'n briodol.

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn derbyn cefnogaeth ymsefydlu priodol a chyfleoedd datblygiad parhaus i'w cefnogi yn eu rôl.

Mynychwyr nad ydynt yn aelodau

- Yr Archwilwyr Allanol (fel bo'n briodol)
- Yr Archwilwyr Mewnol (fel bo'n briodol)
- Y Prif Weithredwr
- Y Prif Swyddog Gweithredu
- Y Prif Swyddog Cyllid
- Ysgrifennydd y Bwrdd

Ar gais yr Ysgrifennydd, gall Cadeirydd y Pwyllgor ganiatáu i aelodau staff S4C ac unrhyw berson arall fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd fel bo'n briodol.

O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd aelodau'r Pwyllgor yn cwrdd â'r archwilwyr Allanol a Mewnol heb i reolwyr S4C fod yn bresennol, ac eithrio'r ysgrifenyddiaeth.

Mae gan y Pwyllgor yr hawl, pryd bynnag y bydd o'r farn fodlon bod hyn yn briodol, i fynd i sesiwn gyfrinachol gan eithrio unrhyw gyfranogwyr ac arsylwyr eraill neu bob un arall heblaw am yr ysgrifenyddiaeth.

Bydd gan yr archwilwyr Allanol a Mewnol fynediad (yn gyfrinachol) i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar unrhyw adeg.

## Cylch Gorchwyl

1. Craffu ar y materion canlynol, a chytuno ar argymhelliad / argymhellion i'r Bwrdd fel bo'n briodol:
    i. Perfformiad yr archwilwyr Allanol[1], gan gynnwys unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u diswyddo (lle bod gan y Bwrdd fewnbwn i hynny);
    ii. Y Datganiad Llywodraethu (i gynnwys datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau a'r datganiad rheolaeth fewnol) ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Grŵp S4C;
    iii. Materion sy'n codi o'r archwiliadau allanol interim a therfynol o'r datganiadau ariannol blynyddol ar gyfer Grŵp S4C, gan gynnwys:
        - cydymffurfiaeth â safonau cyfrifo a Chyfarwyddyd Cyfrifon yr Adran Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac unrhyw newidiadau mewn polisïau ac arferon cyfrifo;
        - addasiadau sy'n codi o'r broses archwilio;
        - y dybiaeth cwmni gweithredol;
        - y llythyr rheoli gan yr archwilwyr Allanol a chynnwys ymatebion y rheolwyr; ac
        - barn ffurfiol yr archwilwyr Allanol;
        - unrhyw faterion eraill y gallai'r archwilwyr Allanol fod am eu trafod (yn absenoldeb y rheolwyr lle y bo angen hynny);
    iv. Datganiad Caethwasiaeth Fodern blynyddol S4C;
    v. Canfyddiadau o bwys yn sgil ymchwiliadau Archwiliadau Mewnol ac ymatebion y rheolwyr; ac adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol;
    vi. Gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt ar sail archwiliadau, o ba ffynhonnell bynnag;

[1] Penodir y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wasanaethu fel archwilwyr Allanol S4C.

vii. Trefniadau rheoli risg mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg gorfforaethol;
viii. Datganiad a Matrics Archwaeth Risg S4C, a'u hadolygiad blynyddol;
ix. Y trefniadau sydd ar waith i hyrwyddo gwerth am arian;
x. Materion unigol yn ymwneud â safonau ac egwyddorion bywyd cyhoeddus ar gais y Bwrdd, Cadeirydd y Bwrdd, yr Aelod Anweithredol Arweiniol, neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg;
xi. Unrhyw ddiwygiadau i bolisïau'r sefydliad ar ddatgan buddiannau, atal twyll a llwgrwobrwyo, camarfer, a datgelu er lles y cyhoedd ('chwythu'r chwiban');
xii. Diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor (fel arfer yn dilyn gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun).

2. Ystyried y materion canlynol, gyda'r awdurdod i'w cymeradwyo ar ran y Bwrdd:
    i. Asesiad risg, strategaeth a rhaglen archwilio blynyddol yr Archwilwyr Allanol;
    ii. Siarter neu fandad yr Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys eu statws, eu hawdurdod a'u mynediad at wybodaeth;
    iii. Penodi neu ailbenodi Archwilwyr Mewnol, telerau eu penodi, y ffi archwilio, a'u gallu i ddarparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio;
    iv. Asesiad risg, strategaeth a rhaglen archwilio blynyddol yr Archwilwyr Mewnol;
    v. Perfformiad yr Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd, digonolrwydd eu hadnoddau a'u trefniadau staffio, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u hymddiswyddiad neu eu diswyddo;
    vi. Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau'r Pwyllgor, yn enw Cadeirydd y Pwyllgor – at sylw'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo – i'w gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol S4C, gan gynnwys crynodeb o farn y Pwyllgor ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol;
    vii. Materion y'u cyfeirir at y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn unol â swyddogaeth y Pwyllgor yng ngweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth a / neu diogelu data S4C.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth ar y materion canlynol, a chynghori'r Bwrdd a / neu'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain fel bo'n briodol:
    i. Crynodeb blynyddol o'r cwynion a ystyriwyd yn unol â gweithdrefnau cwyno S4C;
    ii. Crynodeb blynyddol o'r materion a ystyriwyd yn unol â pholisïau S4C ar atal twyll a llwgrwobrwyo, camarfer, a datgelu er lles y cyhoedd ('chwythu'r chwiban');
    iii. Crynodeb blynyddol o'r materion a ymatebwyd iddynt yn unol â pholisïau llywodraethu data S4C, gan gynnwys Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol;
    iv. Datganiadau buddiannau'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain;
    v. Unrhyw fater arall y bydd y Bwrdd, Cadeirydd y Bwrdd, neu'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) yn ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor.

**Hawliau'r Pwyllgor**
Gall y Pwyllgor:
- ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl;
- gomisiynu cyngor arbenigol neu ymchwil at ddiben y Pwyllgor yn ôl yr angen (trwy'r Ysgrifennydd); a
- geisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen gan unrhyw aelod o'r staff, a chyfarwyddir pob aelod o'r staff i gydweithredu ag unrhyw gais a wneir gan y Pwyllgor.

Er y gall y Cadeirydd gynnig arweiniad a chynghori ar y mathau o faterion y dylid eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor, ynghyd â'r amser gorau i wneud hynny, a natur y wybodaeth sy'n briodol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor, ni all y Cadeirydd gymryd unrhyw benderfyniadau ffurfiol ar ran y Pwyllgor oni bai bod y Pwyllgor wedi cytuno i ddirprwyo'r penderfyniad iddynt o flaen llaw.

**Trefniadau Cyfarfodydd**
Cynhelir y cyfarfodydd o leiaf pedair gwaith y flwyddyn, ac yna yn ôl y galw (ar gais yr Archwilwyr, yr Ysgrifennydd, neu Gadeirydd y Pwyllgor).

Gall y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo materion drwy gyfathrebu y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol, cyhyd â bod cofnod llawn o'r penderfyniad yn cael ei gadw a bod unrhyw benderfyniad a wneir y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol yn cael ei adrodd i'r cyfarfod ffurfiol nesaf er mwyn iddo gael ei gofnodi.

Gofynnir i unigolion adael y cyfarfod pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi (y Pwyllgor fydd â'r gair olaf mewn unrhyw achos o wrthdaro).

Bydd yr Ysgrifennydd, neu fel arall, berson cymwys a benodir gan yr Ysgrifennydd, yn cofnodi'r cyfarfod.

Bydd cofnodion a / neu adroddiadau ysgrifenedig gan y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo er mwyn eu nodi neu eu hystyried, fel y bo'n briodol, cyn gynted â phosib yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

| |
|---|
| Yn amodol ar y darpariaethau uchod, bydd gweithgareddau'r Pwyllgor yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog y Bwrdd, i'r graddau eu bod yn berthnasol. |